



# barcud



CYLCHLYTHYR EBRILL 2021

# Neges gan **Steve Jones** Prif Weithredwr y Grŵp



Wrth imi ysgrifennu'r erthygl hon ar Ddydd Gŵyl Dewi, a'r eirlysiau a chennin Pedr yn sirioli pethau yn heulwen y gwanwyn cynnar, mae'n amser da i adfyfrio ar ran gyntaf 2021. Yn y cyfnod clo rydym ni o hyd - a ninnau'n gweithio gartref yn bennaf - yn parhau i wneud cynnal a chadw hanfodol, yn cwblhau cartrefi newydd, ac yn cynorthwyo'r Cynghorau yng Ngheredigion a Phowys â llety dros dro a gwasanaethau cymorth i deuluoedd digartref. Mae'r rhaglen frechu yn mynd yn dda, ac mae llawer o'n cydweithwyr yn y rheng flaen wedi cael eu dogn cyntaf o'r brechlyn.

Yn ystod y pedwar mis diwethaf ers yr uniad ym mis Tachwedd, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â Grŵp Monitro Tenantiaid Barcud i adolygu polisïau ac yn eu cynnwys yn y gweithdai cynllunio busnes ochr yn ochr â'n haelodau Bwrdd gwirfoddol. Mae'r cynllun busnes pum mlynedd newydd yn cynnwys dros £6m i wella cartrefi sydd yn bod eisoes yn y flwyddyn ariannol hon sy'n dod a rhagor o arian i godi cartrefi newydd.

Wrth inni ddechrau dod allan o'r cyfnod clo yn y misoedd nesaf hyn, byddwn yn gallu cychwyn archwiliadau o ystadau unwaith eto ochr yn ochr â chynrychiolwyr Grŵp Monitro Tenantiaid Barcud, a fydd yn gallu cynyddu eu gwaith pwysig o graffu ar ein gwasanaethau. Braf fydd cerdded unwaith eto o amgylch ein hystadau a'n cynlluniau yn ystod misoedd yr haf a chael trafodaethau ar y stepen drws neu yn yr ardd gyda thenantiaid a phreswylwyr eraill.

Pan fydd y gwaethaf o'r pandemig byd-eang hwn wedi mynd heibio, bydd rhaid inni ddychwelyd at yr argyfwng arall sy'n wynebu'r byd, sef y bygythiadau sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd.

Rydym wedi bod yn gweithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda chymdeithasau tai eraill yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru i bwysu a mesur ar y cyd sut y gallwn ni, fel landlordiaid a chyflogwyr, helpu Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau i fynd i'r afael ag argyfwng y newid yn yr hinsawdd. Gan adeiladu ar yr ynysiad allanol a'r systemau gwresogi ynni gwyrdd blaenorol yng Ngheredigion, a'n profiad o godi fflatiau passiv-haus carbon isel newydd ym Mhowys, mae eisiau inni edrych hefyd ar effaith garbon ein swyddfeydd, ein teithio, a sut y gallwn uwchraddio cartrefi hŷn i leihau'r carbon a ollyngir, ond hefyd i gadw'r costau gwresogi mor isel ag y bo modd i'n tenantiaid. Bydd hyn yn golygu ymagweddiad "adeiladwaith yn gyntaf", gan ganolbwyntio ar ynysiad a chartrefi sy'n gwneud y defnydd mwyaf posib o ynni di-gost o'r haul. Fe gadwn ni chi'n hysbys am ein cynlluniau carbon isel at y dyfodol wrth iddynt gael eu datblygu.



## Ymrwymiad

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd.

## Adolygiadau Rhent

Diolch yn fawr iawn i'r holl denantiaid a gymerodd ran yn yr arolwg ffôn adolygiad rhent yn ystod tymor y Nadolig. Drwy ddweud eich dweud, fe wnaethoch chi helpu i sicrhau bod Barcud yn gosod rhenti fforddiadwy ac yn darparu gwerth am arian. Os ydych yn cael trafferth i dalu'ch rhent neu os oes arnoch chi angen cyngor am fudd-daliadau a all fod ar gael ichi, cysylltwch â thîm Cynnal yn Barcud, a fydd yn falch o helpu.



## Byddwch yn Rhan o 'Pawb' - y Fforwm Cartrefi

Mae Barcud yn datblygu "Fforwm Cartrefi", gan lunio rhestr o denantiaid sy'n fodlon cwblhau arolygon achlysurol fel y gallwn ni gael ciplun o sut rydym yn perfformio mewn maes gwasanaeth penodol.

Gellwch chi wneud hyn drwy ebost, drwy'r post neu ar y ffôn a bydd y pynciau'n amrywio, ond rydym yn gobeithio y gallwn gael safbwyntiau croestoriad ehangach, mwy amrywiol o'n tenantiaid.

Os hoffech gael gwybod rhagor, cysylltwch â Sue Thomas neu Alisa Cakebread ar 0300 111 3030 neu ebostiwch [post@barcud.cymru](mailto:post@barcud.cymru)



Sue Thomas



Alisa Cakebread

## Tenantiaid Cynlluniau Gwarchod yn Cwrdd Ar-Lein

Mae tenantiaid ar draws ein cynlluniau Gwarchod wedi cynnal cyfarfodydd misol ar-lein gan na allant gwrdd yn eu lolfeydd cymunedol nac yn y Fforwm Gwarchod rheolaidd.

Byddant yn cael sgwrs anffurfiol am awr, sy'n caniatáu iddynt gyfnewid y newyddion diweddaraf yn gyfforddus (ac yn ddiogel) yn eu cartrefi eu hunain. Dywedodd un o'n tenantiaid ei bod "yn wirioneddol hyfryd gweld pawb a chael clonc, yn hollol wych!"

Mae'r tenantiaid yn bwriadu cynnal y sesiynau cadw cyswllt hyn ar ail ddydd Gwener pob mis am 10.30am. Nid oes rhaid bod gennych gyfrifiadur na llechen na'r rhyngwyd - gellwch chi gymryd rhan o hyd drwy ddefnyddio'ch ffôn. Roedd tenantiaid o gynlluniau yn Aberteifi, Llandysul, Llambed, Llanon a Llanidloes yn y cyfarfod diwethaf. Os ydych yn byw mewn un o'n cynlluniau Gwarchod neu Fyw'n Annibynnol ac os hoffech fod yn rhan o'r digwyddiadau hyn, cysylltwch â Sue Thomas, ein Huwch Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid ar y ffôn 0300 111 3030 neu drwy ebost: [post@barcud.cymru](mailto:post@barcud.cymru) i gael gwybod rhagor.

## Cylchlythyr

Rydym yn gobeithio eich bod chi'n hoffi'r ail rifyn o'ch Cylchlythyr Barcud. Rydym am weithio gyda'n tenantiaid i gyd i ddyfeisio syniadau newydd ac i adfywio holl olwg y cyhoeddiad – i chi mae o wedi'r cwbl! Bydd y tîm cynhyrchu'n paratoi holiaduron a chwestiynau sampl ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i gael eich safbwyntiau chi. Rydym hefyd yn chwilio am enw newydd! Os hoffech chi ymwneud â hyn neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau, ebostiwch [tenantnews@barcud.cymru](mailto:tenantnews@barcud.cymru) neu cysylltwch â Sue Thomas, Uwch Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid neu Alisa Cakebread, Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid ar 0300 111 3030



Mae gan **filoedd o bobl**  
Cymru hawl i **fwy o**  
**fudd-daliadau.**



## Ydych chi ar eich colled?

Gall Advicelink Cymru eich helpu i wirio a hawlio eich arian.

Ffoniwch am ddim: **0808 250 5700**

[llyw.cymru/hawliadyarian](http://llyw.cymru/hawliadyarian)



## Cyfryngau Cymdeithasol

Mae ein cyfryngau cymdeithasol yma i rannu gwybodaeth a chefnogi ein tenantiaid, ein staff a'r cymunedau yr ydym i gyd yn byw ynddynt ledled canolbarth a gorllewin Cymru. Â mwy na 4,000 o denantiaid, mae'n amhosib bod yn gyfarwydd â phob un tenant 'yn bersonol'. Bydd rhai pobl hefyd yn defnyddio llysenwau ar gyfrifon Facebook, rhywbeth sydd hefyd yn ei gwneud yn anodd dod o hyd i'ch manylion. Os anfonwch chi neges breifat atom, cofiwch y gall fod rhaid inni ofyn am ragor o wybodaeth i helpu i ddod o hyd i'ch manylion.

Os oes gennych gwestiwn penodol ac os anfonwch neges breifat drwodd atom, cofiwch na fyddwn ni'n gwybod bob tro, efallai, pwy ydych chi (na ble rydych chi!). Fe wnawn ni ein gorau i ateb cyn llawned a chyn gynted ag y bo modd.

Os oes arnoch angen ymateb brys y tu allan i oriau i broblem yn eich eiddo, galwch 0300 111 3030 os gwelwch yn dda.



## Mae Gweithio mewn Partneriaeth yn Mynd â'r Maen i'r Wal

Fe ganiatawyd Gorchymyn Cau i Barcud a Heddlu Dyfed Powys mewn perthynas ag un o'n meddiannau yn Llandrindod. Gan Lys Ynadon Llandrindod, a eisteddodd ddydd Mercher, 17eg o Chwefror, y caniatwyd y Gorchymyn. Gorchymyn Llys yw Gorchymyn Cau sy'n gwahardd mynediad i eiddo lle bu ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus. Gall peidio â chydymffurfio â Gorchymyn Cau arwain at garchariad, dirwy, neu'r ddau.

Mae Barcud a Heddlu Dyfed Powys wedi bod yn cydweithio'n agos â'r gymuned leol am nifer o wythnosau cyn i'r Gorchymyn Cau gael ei gyflwyno. Mae preswylwyr lleol wedi cefnogi Barcud a'r Heddlu ill dau yn eu hymdrechion i atal digwyddiadau o feddwdod a thrais yn yr eiddo. Rhaid adrodd unrhyw achosion o dorri'r Gorchymyn Cau i'r Heddlu ar 101 a Barcud ar 0300 111 3030 cyn gynted ag y

bo modd. Dywedodd Ella Hughes, Swyddog Tai ardal Llandrindod: "Ni wnaiff Barcud oddef ymddygiad gwrthgymdeithasol ac fe wnaiff weithredu'n gryf yn erbyn y rhai cyfrannog".



# Rhentu i Brynu

Gall rhai sy'n gobeithio bod yn berchen ar eu cartref eu hunain gael trafferth wirioneddol i gael mynd ar yr ysgol eiddo. Yn gynnar ym mis Rhagfyr 2020, roedd Barcud yn ymfalchïo mewn gweld y garfan gyntaf o ymgeiswyr 'Rhentu i Brynu' yn symud i mewn i'w cartrefi newydd.

Mae'r cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru'n caniatáu i ymgeiswyr llwyddiannus symud i gartref newydd fel tenant â'r nod yn y pen draw o brynu'r eiddo. Mae hyn yn galluogi'r tenant i gynilo wrth rentu, gan ei gwneud yn bosib cael yr ernes hanfodol yna a chan adael iddynt gymryd y cam cyntaf yna ar yr ysgol eiddo. Bydd yr ymgeiswyr hefyd yn elwa o gael y sicrwydd o fynediad at y gwasanaethau cymorth tai sy'n dod law yn llaw â bod yn denant gyda Barcud a'r hyder bod y tai y maent



yn eu prynu yn gartrefi fforddiadwy, cynaliadwy o ansawdd uchel.

Dywedodd Jo Hughes, Swyddog Tai'r Trallwng: "Mae'r broses o 'Rentu i Brynu' yn wir wedi gadael imi ddod i adnabod ein hymgeiswyr a'u taith, sydd wedi bod yn un hir i rai. Roedd ymdeimlad gwirioneddol o gyffro ar y diwrnod symud i mewn, a greodd ymdeimlad go iawn o gymuned a balchder i ymgeiswyr, staff a chontractwyr sydd wedi bod yn gweithio ar adeiladu'r tai".

Mae Gareth Turner yn denant Rhentu i Brynu: "A ninnau wedi byw mewn eiddo yn perthyn i Tai Canolbarth Cymru o'r blaen, roedden ni'n gwybod beth i'w ddisgwyl a beth oedd yn ddisgwyliedig gennyn ni ac fe wnaeth hyn y symudiad o'n hen eiddo i'n hun newydd yn llawer symlach. Mae'r cynllun Rhentu i Brynu'n syniad gwych. Mae ceisio cynilo i gael ernes ddigonol ar yr un pryd â magu teulu ifanc bron yn amhosib. Mae'r cynllun yn ein helpu i gynilo pentwr mawr heb y demtasiwn i'w wario ar bethau eraill".

Ychwanegodd, "Rwy eisoes wedi awgrymu'r cynllun i ddau neu dri o ffrindiau a theulu - mae'n ffordd wych o gael mynd ar yr ysgol eiddo".

Os hoffech chi ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jo Hughes neu Keith Henson ar 0300 111 3030

# Dewch yn Gyfranddaliwr

Gall unrhyw un o denantiaid Barcud fynd yn gyfranddaliwr, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Bwrdd Rheoli. Mae ffi enwol o £1.00 ac mae aelodaeth yn rhoi hawl i'r tenant bleidleisio yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (Cyf. Cyff. Blynnyddol) Barcud neu Gyf. Cyff. Arbennig a chael mwy o lais yn rheolaeth y gymdeithas yn y dyfodol.

Os oeddech eisoes yn gyfranddaliwr gyda Tai Ceredigion neu Tai Canolbarth Cymru, bydd eich aelodaeth fel cyfranddaliwr yn trosglwyddo i Barcud ac fe gewch dystysgrif cyfranddaliwr newydd yn ystod y misoedd nesaf.



I gael ffurflen gais neu i gael gwybod rhagor, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Sue Thomas, Uwch Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid ar 0300 111 3030 neu ebostiwch: [post@barcud.cymru](mailto:post@barcud.cymru)

# Cystadleuaeth Lluniau Gardd

Mae'r gwanwyn wedi dod a hoffem eich gwahodd i gymryd rhan yn ein cystadleuaeth erddi flynyddol. Gwaetha'r modd, mae'r Coronafeirws yn dal i fod yn bresennol ledled Cymru ac mae hyn wedi rhoi stop ar deithio, felly ar gyfer 2021, rydym yn gofyn ichi anfon eich lluniau i mewn unwaith eto. Y cwbl y mae angen ichi ei wneud yw mynd am dro â'ch camera yn eich gardd a rhannu'ch lluniau â ni. Gellir eu printio allan (os gellwch gael mynediad at brintio) a'u hanfon drwy'r post neu eu hebostio atom.

Mae garddio'n beth gwych i'ch iechyd a lles (cyhyd â'ch bod yn cadw'n saff a'ch bod yn gyfrifol yn ystod yr adeg heriol hon). Nid yn unig y mae gardd liwgar a diddorol yn gwneud gwahaniaeth i'ch eiddo ond gall fod o fudd i'r gymuned yr ydych yn byw ynddi a'r amgylchfyd hefyd.

Caiff enillydd pob categori daleb canolfan arddio gwerth £50. Caiff yr enillwyr eu cyhoeddi yn rhifyn mis Awst o'r cylchlythyr. Pob lwc ac arhoswch yn saff.



Y categorïau yw:

1. Yr Arddangosfa Orau o Flodau (gardd breifat)
2. Y Fased Grog, y Cynhwysydd neu'r Bocs Ffenestr Gorau
3. Yr Ardd Lysiau Orau
4. Yr Arddangosfa Orau o Flodau mewn Cynhwysydd Anarferol
5. Y Nodwedd Orau sy'n Helpu Pryfed neu'r Nodwedd Gardd Eco/Bywyd Gwylt Orau (o dan 16 oed)

Anfonwch y llun o'ch cynnig, gan nodi'n eglur rif y dosbarth yr ydych yn ymgeisio ynddo, ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad llawn. At ddibenion gwirio, rhaid ichi fod yn y llun gyda'ch cynnig. Mae lluniau i gael eu cyflwyno heb unrhyw olygu digidol heblaw tocio, addasiadau i ddadleniad, eglurder a mân gywiriadau i liw.

Fe gewch delerau ac amodau ar ein gwefan: [barcud.cymru](http://barcud.cymru)

Anfonwch eich cynnig, os gwelwch yn dda, i: Cystadleuaeth Arddio 2021

d/o Alisa Cakebread

Barcud

Ty Canol House

Ffordd Croesawdy

Y Drenewydd

Powys SY16 1AL

neu ebostiwch: [Alisa.Cakebread@barcud.cymru](mailto:Alisa.Cakebread@barcud.cymru)

Dyddiad cau ar gyfer cynigion: 16eg o Orffennaf 2021



## Fforwm Cyswllt Tenantiaid

cyntaf ar lein

### Ddydd Mercher 5ed o Fai 11am - 12.00

- 11.00 am** Croeso a diweddariad  
Paul Clasby, Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud
- 11.20 am** Diweddariad, y chwe mis cyntaf a chynllunio ymlaen  
Steve Jones, Prif Weithredwr, Barcud
- 11.40 am** Sesiwn holi ac ateb
- 11.55 am** Diolchiadau a chau

Yn ddigidol y cynhelir y digwyddiad hwn ac fe fyddwch yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod drwy blatfform cyfarfodydd ar lein RingCentral (Zoom). Gellir cael mynediad at hwn gan ddefnyddio cyfrifiadur, llechen neu ffôn clyfar.

Os nad oes gennych yr un o'r rhain fe ellwch o hyd ddeialu i mewn, gan ddefnyddio llinell dir neu ffôn symudol.

Efallai y bydd lleoedd yn gyfyngedig, felly mae rhaid ichi gofrestru i ddod i'r Fforwm erbyn dydd Gwener 23ain o Ebrill. Gellwch chi wneud hyn drwy anfon at: [post@barcud.cymru](mailto:post@barcud.cymru) neu drwy ffonio: 0300 111 3030.

Fe gewch y manylion ymuno ar gyfer y Fforwm ar ôl ichi gofrestru.

Bydd staff ar gael os oes arnoch chi angen help a chefnogaeth neu "sesiwn brawf" ymlaen llaw. Fe wnaiff Barcud gwrdd ag unrhyw gost resymol a gewch os bydd rhaid ichi ddeilau i mewn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yr hoffech iddynt gael eu gofyn yn y Fforwm, neu os oes arnoch chi angen rhagor o wybodaeth, anfonwch at: [sue.thomas@barcud.cymru](mailto:sue.thomas@barcud.cymru) neu ffoniwch 01570 424313.

Fe gaiff y digwyddiad hwn ei recordio ac efallai y caiff ei roi ar gael drwy gyfryngau cymdeithasol.

## Gweithio Drwy'r Pandemig

Mae tîm Barcud wedi gweithio drwy'r pandemig a sicrhau bod gwasanaethau ein tenantiaid yn parhau'n ddi-dor (gan ddilyn canllawiau Covid Llywodraeth Cymru). Dyma Rachel. Mae hi wedi parhau i gyflawni ei swyddogaeth gyda Medra yn ystod y 12 mis diwethaf drwy lanhau swyddfeydd a chynlluniau gwarchod a darparu gwasanaeth glanhau dwfn i eiddo gwag fel y bo ein cartrefi'n barod ar gyfer tenantiaid newydd. Diolch Rachel, a phob un aelod o'r tîm, am eich ymdrechion.



## Balchder

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith ac yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn ei wneud yn dda.

# Cymorth â Chamdriniaeth Ddomestig



Mae Montgomery Family Crisis Centre yn gweithio ar y prosiect canlynol. Rhaglen Beilot Canolbwynt Ymyrraeth – rhaglen beilot o dri mis o'r enw Domestic Abuse Hub. Mae'r rhaglen ar gyfer unrhyw un sy'n pryderu am eu hymddygiad tuag at eu partner neu rywun annwyl iddynt.

Ebostiwch [admin@familycrisis.co.uk](mailto:admin@familycrisis.co.uk) neu galwch 01686 629114 i gael rhagor o wybodaeth.

*Asiantaethau a all eich cefnogi chi hefyd os ydych am gysylltu â nhw:*

Mae **Gwasanaeth Cam-drin Ddomestig Gorllewin Cymru** yn cynnig lloches i fenywod, plant a dynion sy'n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig (llinell gymorth 24 awr)

**01970 625585** (Gogledd Ceredigion)

**01239 615385** (De Ceredigion)

**MFCC** (Montgomery Family Crisis Centre)  
**01686 629 114**

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**

Llinell Gymorth i Gymru Gyfan ar gyfer Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol.  
[info@livefearfreehelpline.wales](mailto:info@livefearfreehelpline.wales)

**0808 8010 800**

**National Centre for Domestic Violence**

Ar gyfer gorchmynion peidio ag ymyrryd.

**0800 970 2070**

**Victim Support**  
**0845 30 30 900**

**Hafan Cymru**  
**01267 225555**

**Calan DVS**

Cymorth i Fenywod Sir Frycheiniog Gynt.  
**01874 625146**

**Calan DVS**

Cymorth i Fenywod Sir Faesyfed Gynt.  
**01597 824655**

**Ap Hollie Guard:**

[holliegazzard.org/hollieguard/](http://holliegazzard.org/hollieguard/)

**Cynllun DYN**

Cymorth i Ddiodefwyr Gwryw.  
**0808 801 0321**

**National Stalking Helpline**

**0808 802 0300**

Mae **Paladin's National Stalking Advocacy Service** hefyd yn darparu cymorth, cyngor ac eirioli i'r rhai sy'n dioddef stelcio

**020 3866 4107**

## Etholiadau Llywodraeth Cymru

Mater datganoledig yw pleidleisio, ac mae'n dod o dan Lywodraeth Cymru. Mae gan bawb sy'n 16 oed neu'n hŷn, ac sy'n byw yng Nghymru, hawl i bleidleisio. Gwiriwch gyda'ch cyngor sir lleol fod eich enw chi ar y rhestr. Eich pleidlais chi yw hi, ac mae'r aelod o'r Senedd yn eich cynrychioli chi - peidiwch a'i gwastraffu.

<http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/etholiadau-a-chofrestru-etholiadol/>

<https://cy.powys.gov.uk/article/2133/Y-Gofrestr-Etholiadol>

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/etholiadau-a-phleidleisio/cofrestru-i-bleidleisio/>

[pembrokeshire.gov.uk/elections-and-voting/how-do-you-register-to-vote](http://pembrokeshire.gov.uk/elections-and-voting/how-do-you-register-to-vote)



**Gofal**

Mae ein pobl, ein cymunedau, ein diwylliant,  
ein gwlad a'r blaned yn bwysig i ni.



# Partneriaeth Wych dros Effeithlonrwydd Ynni

Mae Barcud yn gweithio gyda Cyngor ar Bopeth (CAB) Ceredigion ar brosiect newydd cyffrous ac mae'n chwilio am bobl yng Ngheredigion a'r ardaloedd cyfagos i fod yn rhan ohono.

Bydd y gwasanaeth yn cynnig 'archwiliad iechyd ariannol' am ddim, ynghyd â chyngor a chymorth i leihau biliau ynni cartref, arbed arian ar bethau hanfodol eraill a chael hyd i fudd-daliadau, grantiau a help pellach i gynyddu incwm y cartref.

Bydd cyngor a chymorth am ddim ar gael i ddeiliaid tŷ gael y gorau o'u systemau gwresogi a chael cartref saff a chynnes. Bydd hyn hefyd yn cynnwys darparu pethau megis atalwyr drafft, bylbiau golau arbed ynni, siacedi ar gyfer silindrau bwylwr ac eitemau eraill i arbed ynni yn y cartref yn ddi-dâl, yn dilyn asesiad o'r camau perthnasol i'r cartref unigol, tra bo stociau'n parhau.

Fel rhan o'r prosiect, mae Barcud a CAB hefyd

yn gweithio ar gynllun peilot gan Lywodraeth Cymru i gloriannu effeithlonrwydd y cyngor hwn, felly rydym yn eich annog chi i gymryd rhan yn y cynllun hwn os gofynnir ichi. Bydd CAB yn trin unrhyw fanylion ac amgylchiadau personol yn gyfrinachol.

Os hoffech chi gymryd rhan neu ofyn am gymorth, cysylltwch â; William Jones neu Bronwen Robb yn Cyngor ar Bopeth Ceredigion ar 01239 621974 neu enquiries@cabceredigion.org.

Bydd y ffôn yn cael ei ateb 9-3 Llun-lau ac mae peiriant ateb ar adegau eraill, y bydd rhywun yn gwrando arno Llun-Gwe.



## Polisi 'Rhowch Wybod' Newydd

Mae Barcud yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i'n tenantiaid a'n preswylwyr. Eto, rydym yn cydnabod na fydd pethau bob amser yn digwydd yn ôl y cynllun ac na fydd y gwasanaethau a ddarparwn bob tro yn cwrdd ag anghenion cyfnewidiol pobl. Felly, mae rhaid inni werthfawrogi pob atborth, gan gynnwys sylwadau, canmoliaeth, pryderon, a chwynion a'u defnyddio i gyfarwyddo, neu, lle bo'n briodol, i wneud gwelliannau a chymryd camau effeithlonrwydd yn ein gwasanaethau.

Mae croeso bob amser i'ch canmoliaeth chi, gan ei bod yn tynnu sylw ein cydweithwyr a'n timau gwasanaeth at y meysydd o arfer dda o fewn Barcud. Eto, os aiff rhywbeth o'i le neu os ydych yn anfodlon ar ein gwasanaethau, dywedwch wrthym, os gwelwch yn dda. Mae'n haws inni ddatrys cwynion os gwnewch chi nhw'n gyflym ac yn uniongyrchol i'r adran berthnasol. Gallant wedyn geisio datrys unrhyw broblemau yn y fan a'r lle.

Gellwch chi fynegi'ch pryder

mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod:

- gofynnwch am gopi o'n ffurflen gan y person yr ydych eisoes mewn cysylltiad â nhw. Dywedwch wrthynt eich bod chi am iddynt ddelio â'ch testun pryder chi yn ffurfiol.

- galwch ein man cyswllt canolog ar gyfer cwynion ar 0300 111 3030 os ydych am wneud eich cwyn dros y ffôn

- defnyddiwch y ffurflen ar ein gwefan; barcud.cymru

- anfonwch ebost atom ar post@barcud.cymru  
- ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Barcud, Tŷ Canol, Ffordd Croesawdy, Y Drenewydd, Powys SY16 1AL

- siaradwch ag unrhyw un o gydweithwyr Barcud Rydym wedi ymrwmo i wneud ein gwasanaeth yn hawdd ei ddefnyddio i bob aelod o'r gymuned. Yn unol â'n dyletswyddau cydraddoldebau statudol, fe sicrhawn ni bob amser fod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i helpu tenantiaid a phreswylwyr i gael mynediad at ein gwasanaethau a'u defnyddio.

Os oes arnoch chi angen help i wneud cwyn, rhowch wybod inni os gwelwch yn dda.



## Parch

Rydym yn parchu'r bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw ac iddyn nhw, ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y maent yn ei wneud.

# Diweddariad gan Grŵp Monitro Barcud

Cyfarchion gyd-denantiaid,

Rydym yn gobeithio eich bod chi i gyd yn iawn ac yn cael hyd i ffyrdd o ymdopi yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn.

Mae'r misoedd diwethaf hyn wedi bod yn eithriadol o brysur i'r grŵp wrth inni weithio mewn partneriaeth â Barcud a sicrhau ar y cyd fod tenantiaid yn cael eu cynnwys ar bob lefel o weithgareddau'r gymdeithas. Dyddiau cynnar yw hi i Barcud o hyd, ond mae pob ymdrech eisoes yn cael ei gwneud i sicrhau na fyddwn ni fel tenantiaid yn profi dim neu fawr ddim amharu ar y gwasanaethau a gawn ni. Mae llawer o waith i'w wneud eto y tu ôl i'r llenni, gan gynnwys gosod meddalwedd gyfrifiadurol newydd yn y swyddfa yn y Drenewydd ar gyfer gwasanaethau tai ac eiddo. Y gobaith yw y bydd llawer o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd yr haf a bydd hyn yn dileu'r angen sydd ar hyn o bryd i gyn-denantiaid Tai Canolbarth Cymru a Tai Ceredigion gysylltu â'u hen ganolfannau cyswllt. Bydd y system newydd hefyd yn cyflwyno cyfleuster "Monitro ac Orlhain Cysylltiadau", rhywbeth y mae'r grŵp yn ei groesawu'n fawr.

Felly, beth mae'r grŵp wedi bod yn ei wneud? Mae aelodau wedi bod yn mynychu cyfarfodydd misol gyda thimau Arweinyddiaeth a Rheolaeth Weithredol Barcud i godi ac i drafod materion strategol yn ogystal â rhai gweithredol.

Mae aelodau wedi bod mewn cyfarfodydd ar y cyd i greu "Polisi Gosod Rhenti" a "Pholisi Cyfranddalwyr" newydd, wedi adolygu polisïau megis y "Polisi Ôl-ddyledion Rhent", creu pecyn tenantiaeth newydd ar gyfer tenantiaid newydd, creu taflen wybodaeth mewn iaith eglur ar gyfer darpar denantiaid am y cytundeb tenantiaeth ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar bolisi a gweithdrefnau newydd ar gyfer cwynion.

Mae rhai aelodau hefyd wedi bod mewn dau ddigwyddiad Diwrnod Cynllunio Busnes gyda Bwrdd Barcud a'r timau Arweinyddiaeth a Rheolaeth Weithredol, wedi rhoi cyflwyniad i'r Bwrdd am bwysigrwydd cyfranogiad tenantiaid

a gwerthfawrogi safbwyntiau tenantiaid ac wedi creu cyflwyniad fideo ar gyfer y rhaglen hyfforddiant staff newydd. Rydym hefyd wedi bod mewn digwyddiadau cyhoeddus allanol gyda thenantiaid o bob rhan o Gymru, sydd wedi cynnwys Diogelwch Adeiladau, digwyddiadau Rhwydweithiau Tenantiaid, yr Ombwdsmon Gwasanaethau i Gwsmeriaid, y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Tai, Cyfrifiad 2021, Cyflwyniad i Bolisi Tai a'r Rhwydwaith Anabledd i Denantiaid. Bydd yr holl ddigwyddiadau hyn yn helpu'n haelodau ni i ddysgu pethau newydd a chael gwybod beth mae grwpiau tenantiaid eraill yn ei wneud.

Yn anffodus, oherwydd y pandemig presennol, rydym wedi gorfod gohirio ein harchwiliadau o Eiddo Gwag ac Ystadau, ond mae ein haelodau'n awyddus i ddechrau'r rhain eto ar y cyfle cyntaf.

Rydym yn falch o fod yn croesawu aelodau newydd i'r grŵp o hyd o Bowys a Cheredigion ill dwy, ac ar hyn o bryd mae gennym aelodaeth o 21 o denantiaid ac un lesddeiliad. Rydym yn dal i chwilio am aelodau newydd o ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol megis Aberteifi, Machynlleth, Llandrindod, a'r Drenewydd. Os hoffech chi ddod i un o'n cyfarfodydd misol i weld beth rydym yn ei wneud, cysylltwch â Sue Thomas, Uwch-Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid, ar 0300 111 3030.

Fel y nodwyd, dyddiau cynnar yw hi eto i Barcud ac mae llawer iawn mwy o waith i'w wneud wastad drwy gydol y flwyddyn, felly, os gwelwch yn dda, byddwch yn amyneddgar â ni wrth inni i gyd weithio gyda'n gilydd i orffen y trawsnewidiad.

Cadwch yn saff, byddwch yn iach a gobeithiwn am flwyddyn well yn 2021.

Paul Clasby

Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud



## Tîm

Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr, ein tenantiaid, ein cymunedau a'n partneriaid i'n helpu ein gilydd i lwyddo.